Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**FFORWM CYLLID YSGOLION**
**Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023**
**(Canolfan Dinesig)**

# N O D I A D A U

**YN BRESENNOL:**
Keith Maher (Ysgol Uwchradd Pen y Dre) - Cadeirydd
Sarah Townsin (Coed y Dderwen)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Alwen Bowen (Rhyd y Grug)
David Anstee (Ysgol Gynradd y Graig)
Stuart James (Afon Taf)
Sarah Hopkins (Blessed Carlo Acutis)
Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Edwardsville)
Paul Phillips (Ysgol Gynradd Gellifaelog)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Anna Morris (Ysgol Gymunedol Heolgerrig)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio Ysgolion, Cymorth ac Adnoddau)
Garhard Williams (Cynrychiolydd Undeb Llafur)
Liam Hull (Prif Swyddog Ariannol)

**YN GWEINYDDU:**
Joanna Lewis (Rheolwr LMS)
Louise Ballinger (Cyfrifydd)
Gavin Metheringham (Pennaeth AAY a Chynhwysiant)

**YMDDIHEURIADAU:**
Simone Roden (Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen)
Mike O'Neill (Ysgol Uwchradd Pen y Dre)
Ian Kent (Cyfrifydd Addysg)
Gary Winston (Clerc y Fforwm)
Councillor Andrew Barry (Aelod o'r Cabinet ar gyfer Llywodraethu ac Adnoddau)

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Diolchodd yr aelodau i Mr Ian Kent am ei gyfraniad a'i waith dros y blynyddoedd gan ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Croesawyd Mrs Louise Ballinger a fydd yn cymryd drosodd fel Cyfrifydd Addysg ym mis Ionawr i'w chyfarfod cyntaf o Fforwm yr Ysgolion. |
| 2. | **Cofnodion**<br>Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn rhai cywir: |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | • Grŵp Gwaith Fforwm Cyllideb yr Ysgolion – 10 Tachwedd 2023<br><br>• Fforwm Cylldieb yr Ysgolion – 14 Ionawr 2023<br>• Grŵp Gwaith Fforwm Cyllideb yr Ysgolion – 21 Tachwedd 2023 |
| 3. | **<u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**<br><br><u>21 Tachwedd 2023 – CLG AD</u><br>*DA: Bydd yr Undebau Llafur bob amser yn ceisio llusgo'u traed ac mae'n amlwg yn niweidio enw da'r ysgol.*<br>**GW: Nid yw'r datganiad hyn yn wir.**<br><br>*SR: Mae angen i ni hefyd edrych ar bolisi lle y gall staff dderbyn cyflog llawn am 6 mis ac hanner cyflog am 6 mis. Mae unigolion yn cymryd mantais o hyn ac yn aml, ni fyddant yn dychwelyd ac nid yw'r broblem yn cael ei datrys. .*<br>**SW: Dyma'r telerau a'r amodau yn ôl y Green & Burgundy Book** |
| 4. | **<u>Sefyllfa Ariannol CBSMT</u>**<br><br>Cyflwynodd LH ddiweddariad ynghylch y Diweddariad Cyllidebol wedi Rhagolwg Datganiad yr Hydref.<br>Ar hyn o bryd, y gagendor cyllidebol ar gyfer 2024/2025 yn £13.4 miliwn ac mae'n seiliedig ar setliad Refeniw LlC o 3.1%. Mae'r awdurdod wedi dynodi arbedion o £4.1 miliwn a'r defnydd posib o arian wrth gefn o £1.5 miliwn sydd yn dod â'r gagendor i £7.8 miliwn. Er mwyn unioni'r gyllideb, mae angen setliad pellach o 6.7%. Petai pob cynnig yn cael eu cymeradwyo ac na fyddai arbedion pellach yn cael eu dynodi, byddai angen Setliad Refeniw o 9.8%. Dros y 3 mlynedd nesaf, mae'r gagendor yn codi i £65 miliwn. Bydd y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr yn rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch y gagendor ariannol.<br>Sefydlwyd nifer o ffrydiau gwaith fel blaenoriaethau er mwyn parhau i liniaru'r gagendor.<br>Un ohonynt yw edrych ar bob cais cynnydd a dderbyniwyd eleni.<br><br>LM – petai Addysg yn cael ei leihau, beth fyddai'r effaith? Nid yw'r setliadau hwyr hyn yn gymorth i gyllidebau ysgolion.<br>KM – Bach iawn o amser sydd gan yr ALl i ymdrin â'r materion hyn.<br>LH – mae'r cyflwyniad yn cyflwyno'r arbedion cychwynnol ond nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud eto.<br>PP – mae toriadau'n rhy llym. Gobeithio y bydd newidiadau i gyllideb y Gwanwyn cyn yr Etholiad Cyffredinol.<br>DA – mae ysgolion yn eu chael hi'n anodd yn enwedig yn sgil galwadau AAY. Dylid diogelu'r cyllid hwn.<br>KM – cafodd ysgolion eu siâr o doriadau yn 2023/24 o £1.5 miliwn (oddeutu 3%) a chafodd hyn effaith andwyol ar ddatblygiad a safonnau ym Merthyr. Mae ysgolion yn parhau i ddygymod â'r toriadau er mwyn sicrhau arbedion.<br>LM – mae safonnau wedi cael eu bwrw'n barod; daeth ymyriadau i ben yn sgil toriadau staffio.<br>SW – mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr Cymru Gyfan yn ddiweddar, anfonwyd llythyr ynghylch gostyngiad safonnau yn sgil toriadau ariannol. |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | GW – mae arbedion wedi rhoi pwysau ar lwyth gwaith athrawon yn sgil dosbarthiadau mwy a gwaith ymyriadol. |
| 5. | **<u>Adolygiad Ariannol yr LRB</u>**<br><br>Cyflwynodd AL ddiweddariad ar Adolygiad Ariannol yr LRB a oedd yn argymhelliad gan Fforwm Ariannol yr Ysgolion ym Mawrth 2023 er mwyn sicrhau fod y model yn gweithio'n dda.<br><br>Yn dilyn yr adolygiad, cafodd 9 argymhelliad/newid eu cynnig ar gyfer y model presennol:<br>1. Cyflenwi yn sgil salwch staff<br>2. Cyflenwi CPA<br>3. Cyflenwi staff (ag eithrio salwch a CPA)<br>4. Adnoddau/Offer<br>5. Atgyweirio a Chynnal a Chadw<br>6. Model ariannu ar gyfer LSA / DRA<br>7. Lwfans Uwch Reolwyr – CAAY<br>8. Model ariannu AWPU ar gyfer LRB Afon Taf<br>9. Cymhareb staff/disgybl<br><br>Mae cynnig 8 yn cael ei drafod o hyd a bydd yn cael ei ddosbarthu fel diwygiad pan fydd cytundeb arno.<br><br>OM – o ran eglurdeb, o ble y mae'r arian ychwanegol ar gyfer yr adolygiad yn dod?<br>SW – bydd yn cael ei weld fel cais am gynnydd ar gyfer 24/25<br>RS – Mae Greenfield ar hyn o bryd yn goruchwylio rheolaeth LRB Afon Taf a byddai angen lwfans ar gyfer hyn.<br>LM – Diolch i chi am yr holl waith caled. O ran yr elfen cronfa gydfeddiannol, sut fyddai'n gweithio?<br>AL – byddai rhaid cytuno ar hyn cyn ei weithredu.<br>RS – dylai'r arian ychwanegol gael effaith gadarnhaol ar y gwaith allgymorth.<br>AM – oes cynlluniau ar gyfer disgyblion sydd mewn addysg prif ffrwd sydd ag anghenion LRB i dderbyn mwy o arian?<br>KM – mae deilliannau cadarnhaol yn sgil yr adolygiad ac rydym yn cydnabod y gwaith caled. A oes arian ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd â CDU mewn ysgolion sydd yn cael eu cynorthwyo neu fel arall byddent yn Ysgol Arbennig Greenfield lle y byddai costau ychwanegol. Dylai hyn gael ei ystyried.<br>AL – Mae adolygiad blynyddol o'r model ariannol yn ystod y cyfnod pontio rhwng AAA ac AAY. Unwaith y bydd y gofrestr AAY yn cael ei gweithredu'n llawn, byddwn yn adolygu os oes angen model newydd. A yw'n gweithio'n dda ac a ellir ailddosbarthu arian?<br>KM – rydym yn cynorthwyo'r disgyblion mewn ysgolion a dylai'r lefel ariannu gynyddu.<br>GW – a ddylid erdych ar yr argymhelliad?<br>AL – mae'r arian ffiormiwla ar hyn o bryd yn darparu arian ar gyfer disgyblion sydd ar y cofrestrau AAA ac AAY a bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod pontio.<br>GW – a allwn dderbyn hyn fel ystyriaeth a fydd yn cael ei ychwanegu at y llif gwaith? |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | DA – dylai hyn fod yn rhan o gamau nesaf y grŵp gwaith.<br>PP – dylai fod tegwch ar gyfer pob ysgol, LRB ai peidio.<br>AL – gallwn adolygu arian AAY y fformiwla fel rhan o’n gwaith o hyn ymlaen.<br>KM – a ddylid cynnwys argymhelliad fel rhan o’r eitem?<br>AL – byddai angen iddo fod yn argymhelliad ar wahân gan ei fod yn gais gwahanol ond mae modd ei ystyried.<br><br>Cynnig 1 – derbyn y model ariannu sydd wedi cael ei adolygu.<br>Ie – Naw<br>Na – Dim<br>Ymatal – Tri<br><br>Cynnig 2 – adolygu’r arian ar gyfer CDU yr ALl/Ysgolion yn y dyraniad fformiwla ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio’n dda.<br><br><br>Ie – Deuddeg<br>Na – Dim<br>Ymatal – Dim |
| **6.** | **<u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u>**<br><br>AL – fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd am adborth ynghylch materion yn ymwneud â CLG. Y canlynol i’w cynnwys yn y CLG er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch darpariaeth gwasanaeth sydd yn is na’r safon disgwyliedig, boed hynny yn sgil prinder staff neu am resymau eraill ac os dylid ad-dalu neu osod cosbau ariannol a fyddai er budd yr ysgol.<br>Cymal 1 – Lefelau gwasanaeth yn ystod absenoldeb staff<br>Cymal 2 – Perfformiad Gwasanaeth, Costau Ariannnol<br><br>DA – dim arbedion i’w gwneud yn ystod y 6 mis cyntaf er mwyn gweithredu adfachiad.<br>LH – dylai rheolwyr gwasanaeth flaenoriaethu CLG, hyd yn oed os oes salwch yn yr adran er mwyn sicrhau nad oes risg i ysgolion.<br>AL – dyma bwrpas y cymal ac er mwyn sicrhau hyn, mae dealltwriaeth ar y cyd er mwyn darparu cyfrifoldebau y CLG.<br>LH – camau’n cael eu gosod yn Gorfforaethol er mwyn ymdrin â’r pryderon.<br>PP – lle mae’r craffu annibynnol ar gyfer CLG?<br>AL – o dan Adran 4 – Llywodraethu CLG – mae cynnig i gryfhau y trefniadau cyfredol. Dylid datgan pryderon a’u datrys. Os nad yw hyn yn cael ei wneud, yna bydd yn mynd at y Bwrdd Cyllidebol. Gellir ystyried os dylid mynd at y Pwyllgor Craffu neu Archwilio os yn briodol.<br>PP – Trwy graffu, roeddwn yn cyfeirio at waith y grŵp hwn yn hytrach na Phwyllgor Craffu. Rwy’n hapus â’r argymhelliad i graffu drwy’r fforwm ac i atgyfeirio at y Bwrdd Cyllidebau pan fydd angen.<br>LM – o ran y cymalau, mae’n darllen fel “prynwr, byddwch yn ofalus’ yn hytrach na rhoi sicrwydd i ysgolion<br>KM – mae’n bapur manwl ac er mwyn gwneud argymhelliad ar sail gwybodaeth, rwy’n cynnig ei fod yn cael ei ohirio hyd y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.<br>AL – a allaf gynnig estyniad hyd at 15 Rhagfyr ar gyfer unrhyw sylwadau ychwanegol ynghylch |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | papurau CLG nad sydd wedi cael eu rhannu a'u trafod? Gallwn wneud unrhyw newidiadau eraill cyn y cyfarfod ym mis Ionawr.<br><br>Cytunwyd mai dyma'r ffordd ymlaen. |
| **7.** | **<u>Cyfarfodydd nesaf</u>**<br>Cytunwyd ar y cyfarfodydd nesaf:<br><br>• Grŵp Gwaith Fforwm Ariannol yr Ysgolion – 11 Rhagfyr am 10am (Canolfan Dinesig)<br>• Cyfarfod Arbennig – Ionawr – dyddiad i'w gadarnhau (Teams)<br>• Fforwm Cyllideb Ysgolion – 23 Ionawr 2024 11am (i'w gadarnhau) |
| **8.** | **<u>Unrhyw fater arall</u>**<br><br>Ni drafodwyd unrhyw fater arall.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben a diolchodd y Cadeirydd i bawb gan ddymuno Nadolig Llawen iddynt. |